ALL YOU NEED TO KNOW...

SEASONAL GREEN WASTE RECYCLING CHANGES

From November 5th, the Council will collect your recyclable green waste, which includes garden waste and small vegetarian animal waste fortnightly instead of weekly during the winter months.

WHY IS THIS CHANGE TAKING PLACE?

During the winter months (November to March), demand for the service is lower, so in order to make the service more efficient and reduce travel emissions, green waste collections will be picked up fortnightly instead of weekly.

WHICH WEEK WILL MY GREEN WASTE RECYCLING BE COLLECTED?

During the winter months your green waste will be collected on your normal black bag/bin waste collection day, but not at the same time as your recycling and or black bag/bin waste.

WHY DOES MY RECYCLING/BLACK BAG/BIN WASTE GET COLLECTED SEPARATELY TO MY GREEN WASTE?

Green waste is collected by a separate vehicle and will be collected the same day as your black bag/bin - please leave it at the kerbside and the crews will collect it as soon as possible.

WHEN WILL THE FULL SERVICE RESUME?

The full green waste service will return to weekly collections from March 4th and continue throughout the spring and summer months until the end of October.

CAN I TAKE MY GREEN WASTE TO A COMMUNITY RECYCLING CENTRE?

The Council's Community Recycling Centres are open 7 days a week from 8am - 5.30pm during the winter months and will accept green waste recycling. Please note there may be changes to opening hours over the festive period.

WILL YOU STILL COLLECT REAL CHRISTMAS TREES OVER THE FESTIVE PERIOD?

An online booking system will be introduced from 10th December and residents **must** book to have their 'real' Christmas trees collected from the kerbside - they won't be automatically collected.

'Real' Christmas tree kerbside collections will take place from 31st December until 11th January.

During the festive period (Saturday 22nd December until Sunday 13th January) the fortnightly green waste service will be suspended to meet the increased demand for general/ food waste recycling and pre-booked 'real' Christmas tree kerbside collections.

Artificial Christmas trees can be recycled at your local Community Recycling Centre.

FOR MORE INFORMATION VISIT WWW.RCTCBC.GOV.UK/RECYCLING

POPETH SYDD ANGEN I CHI EI WYBOD...

CASGLU GWASTRAFF GWYRDD TYMHOROL

NEWIDIADAU I WASANAETH

O 5 Tachwedd, bydd y Cyngor yn casglu eich gwastraff ailgylchu gwyrdd, sy'n cynnwys gwastraff o'r ardd a baw anifeiliaid anwes llysieuol bach, bob pythefnos yn lle bob wythnos yn ystod misoedd y gaeaf.

PAM BYDD NEWID?

Yn ystod misoedd y gaeaf (rhwng Tachwedd a Mawrth), mae'r galw am y gwasanaeth yn llai, felly er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon a lleihau allyriadau teithio, bydd gwastraff gwyrdd yn cael ei gasglu bob pythefnos yn lle bob wythnos.

PA WYTHNOS FYDD FY NGWASTRAFF AILGYLCHU GWYRDD YN CAEL EI GASGLU?

Yn ystod misoedd y gaeaf, bydd eich Gwastraff Gwyrdd yn cael ei gasglu ar eich diwrnod casglu bagiau/biniau du arferol. Fyddan nhw ddim yn cael eu casglu ar yr un pryd â'ch gwastraff ailgylchu a/neu'ch gwastraff bagiau/biniau du.

PAM BYDD FY NGWASTRAFF AILGYLCHU/BAGIAU/BINIAU DU YN CAEL EI GASGLU AR WAHÂN I'M GWASTRAFF GWYRDD?

Bydd gwastraff gwyrdd yn cael ei gasglu mewn cerbyd ar wahân ar yr un diwrnod â'ch bag/bin du. Rhowch y gwastraff gwyrdd allan a bydd y garfan yn ei gasglu cyn gynted ag y bo modd.

PRYD BYDD Y GWASANAETH LLAWN YN AILDDECHRAU?

Bydd y gwasanaeth gwastraff gwyrdd llawn yn ailddechrau i gynnal casgliadau wythnosol o 4 Mawrth ac yn parhau trwy fisoedd y gwanwyn a'r haf tan ddiwedd mis Hydref.

FYDD Y CYNGOR YN DAL I GASGLU COED NADOLIG GO IAWN DROS GYFNOD Y NADOLIG?

Bydd system trefnu casgliad ar-lein yn cael ei chyflwyno o 10 Rhagfyr. Rhaid i drigolion drefnu i'w coed Nadolig go iawn gael eu casglu – fyddan nhw ddim yn cael eu casglu'n awtomatig.

Bydd gwasanaeth casglu coed Nadolig yn cael ei gynnal o 31 Rhagfyr tan 11 Ionawr.

Yn ystod cyfnod y Nadolig (dydd Sadwrn 22 Rhagfyr tan ddydd Sul 13 Ionawr), bydd y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd bob pythefnos yn dod i ben. Trwy wneud hyn, bydd modd bodloni'r galw am wasanaeth casglu gwastraff cyffredinol/gwastraff ailgylchu a chasgliadau coed Nadolig wedi'u trefnu ymlaen llaw.

Mae modd ailgylchu coed Nadolig artiffisial yn eich Canolfan Ailgylchu yn y Gymuned leol.

OES MODD I FI FYND Â'M GWASTRAFF GWYRDD I GANOLFAN AILGYLCHU YN Y GYMUNED?

Mae Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned y Cyngor ar agor 7 niwrnod yr wythnos rhwng 8am a 5.30pm yn ystod misoedd y gaeaf. Bydd y canolfannau yn derbyn gwastraff ailgylchu gwyrdd. Nodwch ei bod hi'n bosibl y bydd newidiadau i amseroedd agor dros gyfnod y Nadolig.

AM RAGOR O WYBODAETH, EWCH I WWW.RCTCBC.GOV.UK/AILGYLCHU